

BETH SYDD TU ÔL I'R YSBRYD GWRTHRYFEL?

Nodyn i'r siaradwr:

Rhowch ar ddeall pam nad ydi Cristnogion i ymwneud dim â'r gwahanol fudiadau ac agweddau gwrthryfelgar sy'n deillio gyda Satan. Mae angen i ni sylweddoli nad ydi gwrthryfelgarwch o'r fath yn cynflawni llawer o ran sefydlu cymdeithas gyfiawn ac mai Teyrnas Dduw ydi'r unig ateb ymarferol i'r gwaeau lawer sy'n cystuddio cymdeithas ddynol

'RYDYN NI'N BYW MEWN OES O WRTHRYFEL (5 mun.)

Mae'n hawdd sylwi ar enghreifftiau o wrthryfel ar lefel bersonol: Mae llawer o ieuenctid yn gwrthryfela yn erbyn awdurdod rhieni: gwragedd yn gwrthryfela yn erbyn gwŷr (*w84 10/1 5; w83 6/15 6-7*)

Ar raddfa ehangach, mae gwrthryfel yn erbyn awdurdodau ysgolion, yr heddlu, a llywodraeth (*g87 11/22 30; g82 5/8 17-18; tp 129; g71 2/22 16-18*)

Fe welir gwrthryfel agored yn torri allan yn achlysurol yn erbyn trefn sefydledig cymdeithas (*w72 261-2; g90 8/8 9*)

Mae ysbryd gwrthryfel wedi lledu mor eang nes ei fod yn cyffwrdd â phawb i raddau

AI GWRTHRYFEL YDI'R CWRS DOETHAF A MWYAF BUDDIOL? (5 mun.)

Mae hanes yn ein helpu ni i ateb a ydi gwrthryfel yn ddoeth a buddiol

Mae'r Beibl yn ein galluogi ni i ddysgu am gefndir gwrthryfel yn erbyn awdurdod

Yn gyntaf, fe wrthryfelodd ysbryd greadur ac yna ddau fod dynol, gyda chanlyniadau echrydus (*Gen 3; lp 53-61; it-2 757*)

Yn ddiweddarach, fe ddeilliodd canlyniadau drwg oherwydd gwrthryfel Babal (*Gen 11*)

Mae'r ysbryd wrthryfelwr gwreiddiol yn dal i ddylanwadu ar ddynoliaeth ac yn cynhyrfu ysbryd drwg cyffredinol (*Eff 2:2, 3; Dat 12:12; hs 52-3; rs 389-93; w72 262*)

Ef sy'n bennaf cyfrifol am yr ysbryd gwrthryfel eang yn ogystal ag am amgylchiadau amherffaith sy'n ysgogi gwrthryfel ymhlith pobl (*rs 364-5*)

BETH YDI'R CYMHELLION Y TU ÔL I WRTHRYFEL? (15 mun.)

Weithiau mae'r rhai sy'n gwrthryfela yn ddiffuant, yn cael eu hysgogi gan anghyfiawnderau a phroblemau

Mae rhai ifanc yn diflasu gan ragrith a materoliaeth eu rhieni

Fe allai gwragedd wrthryfela yn erbyn gwŷr gormesol gordrahaus

Mae pobl yn gwrthryfela yn erbyn cyfundrefnau economaidd a chymdeithasol sy'n cynhyrchu gwahaniaethau dosbarth a diffyg parch at fywyd (*w89 11/15 30; w72 263-4; g87 11/8 4-6*)

Mae hunanoldeb a balchder yn annog gwrthryfel hefyd

Fe welwn enghraifft o hyn yn hanes Cora (*Num 16; w78 11/15 13-15; it-2 184*)

Llawer o ieuenctid yn gwrthryfela yn erbyn rhieni ac awdurdodau am fod yr ieuenctid eisiau eu ffordd eu hunain neu am eu bod nhw wedi cael eu dylanwadu gan dueddiadau pechadurus (*g88 1/8 20-1*)

Fe all gwraig ddangos annibyniaeth balch drwy ymryson â'i gŵr yn gyhoeddus, ac felly yn gwrthryfela yn erbyn ei awdurdod

Mae miliynau heddiw yn ymwrthod â chyfyngiadau moesol sylfaenol yn unig am eu bod nhw eisiau esgus i fyw bywyd anfoesol; maen' nhw'n dod yn wrthryfelwyr yn erbyn Duw, sydd â safonau moesol uchel (*Salm 119:150; Eff 4:17-19*)

Boed ddifuant neu hunanol, mae gwrthryfel wedi methu â datrys problemau sylfaenol dyn (*Salm 146:3; g87 9/8 23*)

Dylid ymwrthod â gwrthryfel oherwydd mae'n cael ei gondemnio yng Ngair Duw (*1Sam 15:22, 23; Diar 24:21, 22; Preg 8:2, 3*)

Ble mae'r ateb i wir ddatrys y broblem i'w gael?

Y GWIR ATEB I BROBLEM GWRTHRYFEL I'W GAEL WRTH ILDIO I DEYRNAS DDUW (15 mun.)

Teyrnas Dduw ydi'r unig obaith i lwyr ddileu ysbryd gwrthryfel a'r anghyfiawnderau sy'n ei achosi

Dan deyrnasiad y Deyrnas honno, "ni fydd y drygionus" dim mwy (*Salm 37:10*)

Yn hytrach na'n bod ni'n dangos ysbryd gwrthryfel, mae'n holl bwysig i ni ildio i Deyrnas Dduw 'nawr, fel y dangosir drwy i ni ganlyn ffyrdd Duw a amlinellir yn y Beibl (*w78 1/15 18-22; g76 10/8 6-7*)

Daw hynny â llawer o les 'nawr yn y presennol

Hyd yn oed os na fedr ieuenctid dderbyn rhagrith a nodau materol rhieni nad ydyn nhw ddim yn wir Gristnogion, fe ddylen nhw barchu safle eu rhieni ac ufuddhau iddyn' nhw (*Col 3:20; fl 161-3; tp 138-9; yp 13-17*)

Mae gwrthryfela yn brifo rhieni ac fe all frifo eich person chi

Mae ufudd-dod yn plesio Jehofah ac fe all ddenu'r rhieni i'r gwirionedd

Mae'r llwyddiannau lluosog ymhlith y rheiny sy'n dilyn egwyddorion y Beibl yn profi y gall parch y wraig a'i hagwedd ddarostyngedig gymharol hi ddod â heddwch a hapurswydd parhaol (*1Pedr 3:1-6; fl 54-69; w89 11/15 20 ¶19; w86 5/1 22-3; gm 171-2*)

Er nad ydi gwir Gristnogion ddim yn hyrwyddo trefn sefydledig cymdeithas, 'dydyn nhw ddim yn gwrthryfela yn erbyn yr "awdurdodau sy'n ben" (*Rhuf 13:1-7; tp 131-5*)

Osgowch wrthryfela yn erbyn Duw drwy beidio â gwrthwynebu trefniadau llywodraethol y mae e'n eu caniatáu

Mae gwir Gristnogion eisoes wedi goresgyn llawer o broblemau'r ddynoliaeth—hilyddiaeth, materoliaeth, teuluoedd yn chwalu, rhyfel; mae ganddyn' nhw bwrpas mewn bywyd (*g88* 6/22 8-10; *g85* 12/22 9-11; *g81* 2/22 17-18)

Hyd yn oed yn awr maen' nhw'n brysur weithgar dros y drefn newydd, lle na fydd anghyfiawnder yn cael ei ganiatáu (*gm* 162-83; *g78* 10/8 4-23; *g76* 10/8 8-15)

GWASANAETHU DUW YDI'R ATEB YMARFEROL I YSBRYD GWRTHRYFEL (5 mun.)

Mae gwahoddiad i bawb i gymdeithasu â Thystion Jehofah er mwyn gweld eu bod nhw eisoes wedi datrys llawer o'r problemau y mae'r byd yn gwrthryfela o'u herydd (*br* 78 23-4)

Nid canlyniad dyfalu ydi eu llwyddiant nhw; pobl gyffredin, amherffaith ydyn nhw

Mae ganddynt yr Ysgrythurau fel arweiniad sicr ar gyfer bob agwedd a pherthynas (*rs* 199; *sj* 5, 9-11)

Ni ddylid bod yn ddifater ynglŷn â phroblemau'r presennol

Fe fedrwch chi ddysgu cyngor sy'n gweithio er mwyn trin problemau'r presennol

Fe fedrwch gael gobaith dilys y bydd 'na ddatrys *parhaol* ar *bob* problem ym myd newydd Duw (1Tim 4:8)

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

Rhif 33-W—tudalen 2

© 1992 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

I'W DRADDODI MEWN 45 MUNUD

Cedwir Pob Hawl